# Gwyneth Glyn
# Bywgraffiad

@Andy Morgan

Un â'i thraed wedi eu gwreiddio'n ddyfn ym mhridd Eifionydd, ond sydd wastad â'i golygon ar orwelion pell. Yn gantores, bardd a dramodydd, gwêl ei hun fel anturwraig gelfyddydol, sy'n ffynnu ar arbrofi â gwahanol ffurfiau.

Yn gyn-ddisgybl yn ysgol berfformio Glanaethwy, astudiodd Athroniaeth a Diwinyddiaeth yng Ngholeg Iesu Rhydychen, ble bu'n aelod o OUDS a'r Oxford Revue. Yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol cafodd flas ar berfformio mewn cynyrchiadau theatr, yn ogystal â chanu gyda'r band gwerin / Americana Coca Rosa and the Dirty Cousins.

Wedi ennill gradd ddosbarth cyntaf, dychwelodd i Gymru i ddilyn gyrfa fel awdures a chantores. Bu hi'n Fardd Plant Cymru 2006 - 2007, ac mae'n ysgrifennu'n helaeth i'r theatr a'r teledu, gan sgriptio'n rheolaidd i Pobol y Cwm. Rhyddhawyd tair albwm ganddi: Wyneb dros dro yn 2005, Tonau yn 2007 a Cainc yn 2011.

Yn 2016 cafodd Ghazalaw, ei chywaith gyda'r canwr ghazal Indiaidd Tauseef Akhtar, enwebiad yng Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2 am y Gân Draddodiadol Orau. Mae'r cywaith yn plethu alawon gwerin Cym-reig a hen benillion gyda chanu serch ghazal yn yr iaith Urdu. Perffor-miodd y cywaith mewn 'showcase' yn WOMEX Caerdydd, yn ogystal ag yn y cyngerdd agoriadol, gan greu argraff ar y gantores a'r ddarlledwraig Cerys Matthews. Rhyddhawyd eu halbwm ar y cŷd rhwng Mwldan a Marvels of the Universe - label Cerys a Steve Abbott. Teithiodd Ghazalaw yng Nghymru a Lloegr, a pherfformio mewn gwyliau a chyngherddau yn India; ym Mumbai, Delhi, Chennai a Kolkata.

Caiff Gwyneth ei denu tua'r gorllewin yn ogystal â'r dwyrain. Gwnaeth sawl ymddangosiad yng Ngŵyl Werin y Smithsonian, Washington DC yn 2009, yn cynnwys cyngerdd arbennig yn y Kennedy Center, ble cafodd ymateb ysgubol i'w chaneuon a'i barddoniaeth. Fe'i gwahoddwyd yn ôl i'r ŵyl yn 2013, pan oedd sylw neilltuol yn cael ei roi i ieithoedd dan fygythiad. Yn 2015 treuliodd gyfnod yn cyfansoddi yn yr House of Songs, Austin Texas a pherfformiodd mewn sawl 'showcase' yn y Folk Alliance International yn Kansas City.

Yn 2015 a 2016 bu'n cefnogi Seckou Keita, y chwaraewr cora o Senegal, ar daith o amgylch gwledydd Prydain i hyrwyddo ei albym '*22 Strings*', gan gyrraedd a swyno cynulleidfaoedd newydd.

Mae wedi cydweithio gyda rhai o artistiaid mwyaf blaenllaw Cymru - Heather Jones, Catrin Finch, Gareth Bonello, Al Lewis, Georgia Ruth, Bryn Terfel a Rhys Meirion i enwi dim ond rhai. Yn 2016 ymddangosodd yng nghyngerdd arbennig 'Songs of Separation' yng Nghaerdydd, oedd yn arddangos doniau rhai o ferched mwyaf blaengar y sîn werin ar hyd a lled gwledydd Prydain, ac a aeth ymlaen i ennill gwobr Albwm Orau yng  Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2 yn 2017.

Yn ddiweddar ysgrifennodd ei libretto opera cyntaf (addasiad o'r ddrama *Y Tŵr* gan Gwenlyn Parry) - cyd-gynhyrchiad rhwng Music Theatre Wales a Theatr Genedlaethol Cymru, a gafodd adolygiadau ffafriol yn cynnwys pum seren gan y Times. Yn ddiweddar hefyd by'n datblygu darn newydd o waith theatr-dawns gyda chwmni De Oscuro - '*Teilchion / Fragments*' sy'n archwilio profiadau merched sydd wedi byw drwy'r system ofal, ac effaith hynny ar fywyd a pherthynas. Yn ei chasgliad diweddara' o ganeuon, *Tro*, mae Gwyneth yn cwmpasu ei holl ddylanwadau a phrofiadau diweddar. Mae'n gasgliad sy'n olrhain y daith yn ôl at ei gwreiddiau - o Gaerdydd, ble bu'n byw am bum mlynedd, yn ôl i fro ei mebyd yn Eifionydd; taith y galon yn ôl o dywyllwch i oleuni, a thaith yr enaid o anialwch pellennig ac estron i wyrddni ffrwythlon yr union fan ble mae o i fod.

Mae hi'n byw yng Nghricieth gyda'i mab chwe mlwydd oed, Maelgwn.